Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 306

**Amseru: Arferol**

**Teitl: Ymestyn y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn unol â chofnod penderfyniadau DLl257 cymeradwyodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y dylid defnyddio'r cyfnod estyniad llawn a ganiateir o fewn y contract gwreiddiol a ddyfarnwyd i Pobl ar gyfer cyflawni'r Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr. Mae hyn yn ymestyn y dyddiad gorffen presennol i 2 Hydref 2024.

Yn dilyn gwaith ymroddedig o fewn Heddlu Dyfed Powys, mae atgyfeiriadau i'r cynllun ar hyn o bryd yn uwch nag ar unrhyw adeg yn ystod y contract ac mae'r cynllun yn parhau i ddangos canlyniadau cadarnhaol i gleientiaid. Cynllunnir gwaith gwerthuso pellach gyda phartneriaid academaidd cyn diwedd y contract tymor llawn. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo gyda phenderfyniadau ail-gomisiynu yn y dyfodol

Nid yw dyddiad diwedd y contract presennol yn alinio â blynyddoedd ariannol, gan wneud gwaith cynllunio ariannol yn anodd i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r darparwr. Mae hefyd yn golygu y byddai'r gwaith ail-gomisiynu presennol yn agos at yr etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu arfaethedig ar gyfer Tymor 4. Cynigir ymestyn y tymor presennol o chwe mis i 31 Mawrth 2025 er mwyn diogelu'r cynllun yn Nhymor 4 a  chynorthwyo gyda phennu'r gyllideb a monitro.

Ymgynghorwyd â'r darparwr a byddai'n fodlon llofnodi am y cyfnod ychwanegol. Pennir cyllidebau yn flynyddol, felly mae'r cynllun eisoes wedi'i gynllunio ar gyfer cost blwyddyn lawn.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

**Argymhelliad:**
Bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cymeradwyo estyniad o chwe mis i ddyddiad diwedd y contract presennol ar gyfer y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr, gan ei ymestyn i 31 Mawrth 2025. Bydd hyn yn helpu i bennu'r gyllideb ac yn sicrhau na fyddai angen gwneud penderfyniadau allweddol yn ystod y cyfnod cyn yr etholiadau ar gyfer Tymor 4.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 29.6.2023**

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER